

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

DATGANIAD NEWYDDION

Ni ddylid cyhoeddi neu ddarlledu'r datganiad hwn cyn
00:01 ar Ddydd Iau | 24 | Ionawr 2019

HC 1869 2017-19

Adroddiad gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Gweinyddu Treth Incwm Cymru 2017-18

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyhoeddi adroddiad heddiw ar gynnydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) tuag at weithredu cyfraddau treth incwm Cymru, a fydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2019.

O dan Ddeddf Cymru 2014, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) y grym i osod cyfraddau treth incwm Cymru a fydd yn berthnasol i incwm di-gynilion a di-ddifidend trethdalwyr Cymreig o flwyddyn treth 2019-20 ymlaen.

O fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol y DU yng Nghymru yn cael eu gostwng 10% a bydd y Cynulliad yn defnyddio'i bwerau i benderfynu'r cyfraddau a ddefnyddir yn eu lle yng Nghymru. Bydd swm cyfraddau gostyngedig y DU a'r cyfraddau newydd yng Nghymru yn penderfynu'r gyfradd dreth gyffredinol a delir gan drethdalwyr Cymreig. Ar gyfer 2019-20, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyfraddau sydd yr un fath â'r gostyngiad yng nghyfraddau'r DU, sef 10 pwynt canran.

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf i gael ei baratoi gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Cymru 2014. Mae hyn yn ei wneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar ddigonolrwydd unrhyw reolau a gweithdrefnau CThEM a roddwyd ar waith, a gydymffurfir â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn, cywirdeb y symiau a ddygwyd i gyfrif gan CThEM, a chywirdeb a thegwch y symiau a ad-dalwyd i CThEM.

- Diwedd -

Nodiadau ar gyfer Golygyddion

1. Gwnaeth Deddf Cymru 2014 ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
2. Mae trethdalwr Cymreig yn rhywun sydd â rhwymedigaeth dreth y mae ei brif fan preswyllo yng Nghymru o fewn blwyddyn dreth benodol, neu sydd yn treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn dreth honno yn byw yng Nghymru. Mae yna nifer o achosion penodol lle byddai trethdalwr yn cael ei ystyried i fod yn drethdalwr Cymreig ar bob adeg. Mae CThEM yn gyfrifol am benderfynu a yw rhywun yn drethdalwr Cymreig. Ar sail yr Arolwg o Incwm Personol diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018, mae CThEM yn amcangyfrif bod 1.35 miliwn o drethdalwyr Cymreig yn 2017-18.
3. Mae hysbysiadu i'r wasg ac adroddiadau ar gael o'r dyddiad cyhoeddi ar [wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol](#). Gellir cael hyd i gopiâu caled trwy ddefnyddio'r dolenni perthnasol ar ein gwefan.
4. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn craffu ar wariant cyhoeddus ar ran y Senedd ac mae'n annibynnol ar y llywodraeth. Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Sir Amyas Morse KCB, yn Swyddog Tŷ'r Cyffredin ac yn arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n cyflogi oddeutu 785 o bobl. Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn ardystio cyfrifon pob adran y llywodraeth a nifer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Mae ganddo awdurdod statudol i archwilio ac i adrodd i'r Senedd ynghylch a yw adrannau a'r gyrff y maent yn eu hariannu wedi defnyddio'u hadnoddau yn effeithlon ac effeithiol ac mewn modd economaidd. Mae ein hastudiaethau yn gwerthuso gwerth am arian gwariant cyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol. Mae ein hargymhellion a'n hadroddiadau ar arfer da yn helpu'r llywodraeth i

wella gwasanaethau cyhoeddus. Arweiniodd ein gwaith at arbedion archwiledig gwerth £741 miliwn yn 2017.

Hysbysiad i'r Wasg 7/19

Dylid anfon pob ymholiad at swyddfa wasg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol:

Stephen.luxford@nao.org.uk

020 7798 7861 / 0785 260074

pressoffice@nao.org.uk

020 7798 7400